# DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | **CYDLYNYDD MEWNWELEDIAD** |
| **RHEOLWR LLINELL:** | Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| **CYFLOG:** | Gradd Cydlynydd Undeb Aber: ar hyn o bryd yn dechrau ar £25,360 – tymor penodedig 8 mis |
| **ORIAU:** | Llawn amser (36.5 awr), oriau blynyddol, i'w gweithio'n hyblyg drwy drafodaeth gyda'r rheolwr llinell. |
| **DYDDIAD YSGRIFENNU:** | Tachwedd 2025 |

**DIBEN Y RÔL**

Arwain gwaith Undeb Aber wrth gasglu, dadansoddi a rhannu mewnwelediad i farn ac i brofiadau myfyrwyr. Mae'r rôl yn sicrhau bod yr Undeb Myfyrwyr, ei swyddogion a'i staff yn cael eu harwain gan dystiolaeth gadarn wrth lunio blaenoriaethau, ymgyrchoedd a gwasanaethau. Bydd y deiliad swydd yn cydlynu grwpiau cynghori, ymgynghoriadau a llwyfannau adborth, gan droi data crai yn themâu clir ac argymhellion ymarferol. Byddant yn adeiladu perthnasoedd cryf gyda chydweithwyr yn y Brifysgol, gan eu cefnogi i ddeall ac ymateb i fewnwelediad myfyrwyr, a sicrhau bod Undeb Aber yn bartner dibynadwy wrth lunio profiad y myfyrwyr.

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. **Mewnwelediad a Deallusrwydd Myfyrwyr**

- Cydlynu Grwpiau Cynghori Rhyngwladol, Anabledd, Rhyddhad a Myfyrwyr yr Undeb, cymryd nodiadau ac adrodd ar themâu a chanfyddiadau allweddol.
- Cefnogi a datblygu ymgynghoriadau i ddal safbwyntiau a phrofiadau amrywiol myfyrwyr.
- Dadansoddi data ansoddol a meintiol i nodi tueddiadau, themâu a materion sy'n dod i'r amlwg.
- Cynhyrchu adroddiadau, diweddariadau a dangosfyrddau clir i lywio swyddogion, staff a rhanddeiliaid yr Undeb.

- Sicrhau bod mewnwelediad yn cael ei ymgorffori mewn penderfyniadau, ymgyrchoedd a datblygiad gwasanaethau'r Undeb.
- Cefnogi adrannau'r Brifysgol i ddarparu ac i gefnogi adborth myfyrwyr, gan gynnig arbenigedd a phartneriaeth yr Undeb.
- Adeiladu a chynnal perthnasoedd gwaith cryf gyda chydweithwyr y Brifysgol, gan sicrhau bod mewnwelediad myfyrwyr yn cael ei rannu ac yn cael ei weithredu arno ar y cyd.

**2. Adborth Ffurfiol a Dadansoddi**

- Arwain ar weinyddu ac adrodd ar Unitu (platfform Adborth Academaidd), gan sicrhau bod adborth myfyrwyr yn cael ei ddal, ei ateb a'i esgyn yn briodol.
- Cefnogi dadansoddi canlyniadau Pwyllgorau Ymgynghorol Staff-Myfyrwyr (SSCC), gan nodi themâu ailadroddus a meysydd i'w gwella a chyfathrebu â Chynrychiolwyr a staff perthnasol yr Undeb a'r Brifysgol.
- Cydlynu dadansoddiad Undeb ar yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS), gan amlygu tueddiadau a chyfleoedd i weithredu.
- Darparu deallusrwydd rheolaidd o ddadansoddiad gwefan i staff yr Undeb i lywio cynllunio a chyflwyno.

**3. Ymgysylltu â Myfyrwyr a Chyfathrebu**

- Ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr i gasglu adborth ar faterion sy'n effeithio ar eu profiad.
- Cefnogi swyddogion a staff yr Undeb i gynllunio a chyflwyno ymgynghoriadau ac arolygon.
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a chyfathrebiadau'r Undeb drwy rannu mewnwelediad a thystiolaeth mewn fformatau hygyrch.
- Cefnogi mewnwelediad ymgysylltu o ddata Native (ein partner gwerthu cyfryngau).

**4. Dyletswyddau eraill:**

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a all helpu i gyflawni'r tasgau uchod yn effeithiol, a all hefyd hyrwyddo buddiannau Undeb Aber yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Hyrwyddo Undeb Aber yn gadarnhaol a chynnal ei werthoedd a'i bolisïau.
- Hyrwyddo Undeb Aber a'n gwaith ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a deunydd gwybodaeth Undeb y Myfyrwyr.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data, a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel sy'n briodol.
- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb y Myfyrwyr gydol y flwyddyn gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau drwy'r Undeb gyfan. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo adrannau eraill â'u gweithgareddau a'u gwasanaethau
- Mae arferion gorau o ran yr amgylchedd yn gyfrifoldeb holl staff Undeb y Myfyrwyr.
- Cyfrannu at brosiectau'r Undeb a chyfranogi mewn gweithgorau
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

**NEWIDIADAU YN Y SWYDD DDISGRIFIAD**

Gall y swydd ddisgrifiad hwn newid unrhyw bryd ar ôl ymgynghori â deilydd y swydd.

Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deilydd y swydd. Serch hynny, mae'n gosod allan prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd, a gall fod disgwyl i ddeilydd y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.

**MANYLEB Y PERSON – CYDLYNYDD MEWNWELEDIAD**

| MEINI PRAWF | Gofyniad | Cais | Cyfweliad |
|---|---|---|---|
| CYMHWYSTERAU | | | |
| Addysg gyffredinol dda, fel arfer hyd at Lefel Uwch/A | Hanfodol | √ | |
| Gradd Prifysgol/Coleg | Desirable | √ | |
| Cymhwyster data, ymchwil neu fewnwelediad | Desirable | √ | |
| PROFIAD | | | |
| Profiad amlwg o weithio'n effeithiol ar eich menter eich hun | Hanfodol | | √ |
| Profiad o drefnu cyfarfodydd ymgynghori deniadol a gweithgareddau | Hanfodol | √ | |
| Profiad o weithio gyda data, ei ddadansoddi a'i ailfframio ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd | Hanfodol | √ | √ |
| Profiad o ddatblygu a chefnogi prosiectau | Hanfodol | √ | √ |
| Profiad o ddefnyddio ystod eang o gyfryngau ar-lein gan gynnwys rhwydweithiau cymdeithasol a datblygu/rheoli cynnwys gwefan. | Dymunol | √ | √ |
| GWYBODAETH | | | |
| Gwybodaeth waith o fesur effaith mewn amgylchedd cynrychiolaeth | Hanfodol | √ | √ |
| Gwybodaeth o arferion gorau mewn ymgynghori a rhannu data | Hanfodol | √ | √ |
| Dealltwriaeth o faterion a themâu cyfredol mewn Addysg Uwch ac Undebau Myfyrwyr | Hanfodol | | √ |
| SGILIAU | | | |
| Y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm ac i rymuso ac ysgogi eraill | Hanfodol | √ | √ |
| Hunan-gychwynwr gyda agwedd 'gall wneud' a chymeriad tawel yn enwedig dan bwysau. Hunan-ysgogol ac annibynnol | Hanfodol | | √ |
| Sgiliau rhyngbersonol ac cyfathrebu eithriadol (Ysgrifenedig ac Ar lafar) | Hanfodol | √ | √ |
| Yn gallu creu a chynnal perthnasoedd gwaith cryf | Hanfodol | | √ |
| Yn gallu goresgyn rhwystrau a phroblemau mewn modd adeiladol | Hanfodol | √ | √ |
| Hyderus a galluog i wneud gwaith estyn allan brwdfrydig sy'n cynnwys siarad â myfyrwyr | Hanfodol | √ | √ |
| Medrus wrth ddehongli data, gan gynnwys datganiadau ariannol, dogfennau polisi a briffiadau ymchwil | Hanfodol | √ | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Medrus mewn TG, gan gynnwys dealltwriaeth drylwyr o Microsoft Office, dealltwriaeth dda o offer cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook, Twitter a gwaith gwefan | Dymunol | √ | √ |
| Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | √ | |
| GWERTHOEDD AC MOESEG | | | |
| Dymuniad i weithio mewn amgylchedd dan arweiniad myfyrwyr democrataidd a rhoi myfyrwyr yn gyntaf | Hanfodol | | √ |
| Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal | Hanfodol | | √ |
| Dymuniad i weithio mewn sefydliad sy'n gwasanaethu aelodaeth amrywiol yn ddiwylliannol | Hanfodol | | √ |
| Ymroddedig, cadarnhaol, allblyg a chyfeillgar gyda agwedd 'gall wneud' | Hanfodol | | √ |
| Safonau uchel amlwg o uniondeb personol | Hanfodol | | √ |